

Catchphrase 2004: Ysbyty Brynaber - Week 64

Key Language

Words in English that have different meanings in Welsh

Sut + verb

Pa mor + adjective

New Words

Celwyddau	lies
Eglurhad	explanation
Cysgod	shadow
Cyhyd	so long
Penderfynol	determined
Gwelw	pale
Llwydaidd	pale
Bochau	cheeks
Hen law	old hand
Profiadol	experienced
Angen	to need
Siomi	to disappoint
Rhwydo	to net
Sgerbwd	skeleton
Gorymateb	to over-react
Tir mawr	mainland
Heblaw am	apart from
Penrhyn	headland
Rhwyfo	to row
Dadwisgo	to undress
Twyllo	to cheat
Ffeithiau	facts
Perffaith siwr	perfectly sure
Trueniaid	poor things
Wedi sythu (SW)	frozen
Beth sy o'i le ar?	What's the matter with?
Beichiog	pregnant
Cyflwr	condition
Gwirion (NW)	foolish
Poen	pain
Perygl	danger
Meddwyn	drunkard
Gwn	gun
Saethu	to shoot
Gollwng	let go
Cnoi	to bite

Words in English with different meanings in Welsh

In our grammar slot we'll take a look at words in English that have different meanings when translated into Welsh.

Let's start with Welsh itself:

The Welsh language and matters relating to the language are Cymraeg

Ysgolion Cymraeg Welsh schools

Ilyfr Cymraeg Welsh book

Capel Cymraeg Welsh chapel

Matters pertaining to things Welsh are Cymreig	
Dillad Cymreig	Welsh Clothes
Cig Cymreig	Welsh meat
Telyn Gymreig	Welsh harp

The same is also true of other nations and cultures:

Almaeneg	German Language
Almeinig	Relating to things German
Ffrangeg	French language
Ffrengig	Relating to things French
Gwyddeleg	Irish language
Gwyddelig	relating to things Irish

Be careful too when you are spelling Cymru -Cymru ending in a **u** is the country and Cymry ending in **y** are the Welsh people.

There are two ways of translating the question form **How**

Sut /Pa mor

Sut is always followed by a verb form:

Sut wyt ti?	How are you?
Sut roedd y tywydd?	How was the weather?
Sut byddi di'n teithio?	How will you be travelling?
Sut gorffennodd y gêm?	How did the game finish?
Sut baset ti'n dweud?	How would you say?

The other form for How is **Pa mor?**

Pa mor is always followed by an adjective

Pa mor hen ydy e?	How old is he?
Pa mor hwyr fyddi di?	How late will you be?
Pa mor bell ydy hi i Fangor?	How far is it to Bangor?

Verbs beginning with 'ym'

Have you noticed that a number of Welsh verbs begin with the prefix **-ym**. These verbs are known as reflexive verbs where the person carrying out the action also receives the action.

Golchi is to wash	ymolchi is to wash oneself
Dangos is to show	ymddangos is to appear or literally to show oneself
Gweld to see	ymweld is to visit
Lladd o kill	ymhladd to fight
Gwrthod to refuse	ymwrthod to reject

Ysbyty Brynaber: Episode 190

Jenny and Agnes meet for supper - they discuss the information that Jac has received about Dic Allen.

Brian, Jac and Arwyn set off on their voyage.

At the hospital the next day Agnes tells Jenny that a decomposed body has been found by a trawler.

Geirfa

Celwyddau	lies
Eglurhad	explanation
Cysgod	shadow
Cyhyd	so long
Penderfynol	determined
Gwelw	pale
Llwydaidd	pale
Bochau	cheeks
Hen law	old hand
Profiadol	experienced
Angen	to need
Siomi	to disappoint
Rhwydo	to net
Sgerbwd	skeleton
Gorymateb	to over-react

Golygfa 1

Jenny - Heia.

Agnes - Hi. Sut wyt ti?

Jenny - Newydd ddechrau ar y shift. A ti?

Agnes - Nage. Dw i yma ers wyth y bore 'ma. Beth wyt ti'n wneud nos 'fory?

Jenny - Nos yfory? Dim byd. Pam?

Agnes - Wyt ti ffansi dod draw i swper...?

Jenny - Swper? Beth...?

Agnes - Jest ti fi...Wel, fydd y plant 'bytu'r lle hefyd...

Jenny - Ond ddim Jac?

Agnes - Na. Mae Jac wedi mynd i Birmingham tan nos Iau.

Jenny - Busnes?

Agnes - Ie. Ddoi di?

Jenny - Iawn. Ges i newyddion da iawn gen Jac neithiwr. Mae Duncan Healy y ditectif wedi dod o hyd i Richard Allen...

Agnes - Dim Dan Owen yw ei enw fe?

Jenny - Ie. Sori. Dan Owen. Wn i ddim pam dw i'n ei alw fo'n Richard Allen o hyd...

Agnes - Ble mae e 'te?

Jenny - Yn byw yn Lerpwl.

Agnes - Wyt ti'n bwriadu mynd i'w weld e?

Jenny - Wrth gwrs. Ar ôl i'r dyn balu cymaint o gelwyddau wrtho i. Dw i'n haeddu eglurhad. Dwyt ti ddim yn meddwl?

Agnes - Oes pwynt? Mae e mas o dy fywyd di.

Jenny - Ond mi fuodd fel cysgod trosto fo am gyhyd. Na. Dw i'n haeddu eglurhad. A dw i'n benderfynol o gael un hefyd.

Golygfa 2

Brian - Ble mae Arwyn?

Jac - Arwyn? Yn y galley kitchen...

Brian - Ydy o'n iawn?

Jac - Ydy. Dw i'n meddwl. Pam wyt ti'n gofyn?

Brian - Roedd o'n edrych reit welw gynna...
 Jac - Gwelw?
 Brian - Llwydaidd. Wedi colli lliw o'i fochau.
 Jac - Get you. Efallai ei fod o'n seasick...
 Brian - Go brin. Mae o'n hen law ar y môr...Arwyn? Arwyn? Agor y drws 'ma.
 Wyt i'n iawn?
 Arwyn - Ydw...wedi mynd i gysgu...Dyna'r cyfan...
 Brian - Dwyt ti ddim wedi bod yn yfed wyt ti?
 Arwyn - Fi? Nac ydw...
 Brian - Siwr?
 Arwyn - Dim tropyn, Brian.
 Brian - Achos mae Jac a fi yn dibynnu arna ti. Rwyd ti yn deall hynny on'd wyt ti? Ti ydy'r morwr. Ti sy'n brofiadol. Ac os gwneith y tywydd droi mi fyddwn ni dy angen di yn fwy nag erioed....
 Arwyn - Does dim eisiau ichi fecso dim, bois. Wna i ddim eich siomi chi, Brian, dw i'n addo...
 Brian - Gobeithio wir...

Golygfa 3

Agnes - Jenny? Jen?
 Jenny - Beth sy 'n bod?
 Agnes - Dwyt ti ddim yn mynd i gredu hyn...
 Jenny - Agnes, cymer dy wynt atat...
 Agnes - Sori...Ond dwyt ti ddim yn mynd i gredu hyn...Ar y radio jest nawr...
 Jenny - Beth?
 Agnes - 'Trawler' mas ar y môr...Wedi rhwydo corff...Wel, ddim corff...Yn fwy fel sgerbwd...
 Jenny - Pryd?
 Agnes - Roedd e ar bwletin dau o'r gloch...
 Jenny - Pam wyt ti'n rhedeg ata i?
 Agnes - Gwnes i feddwl...
 Jenny - Meddwl beth?
 Agnes - Efallai taw Richard Allen oedd e...
 Jenny - Sut all o fod yn Richard Allen? Dan Owen ydy enw iawn Richard Allen. Ac yn ôl ditectif Jac Whelan, mae o'n fyw ag yn iach yn Lerpwl...
 Agnes - Rwyd ti'n iawn.
 Jenny - Dw i'n siwr iawn fy mod fi'n iawn...
 Agnes - Dw i wedi gorymateb.
 Jenny - Wyt.
 Agnes - Rwyd ti'n iawn! Beth yffach sy'n bod arna i, dwed?

Ysbyty Brynaber: Episode 191

The Mary Rose has finally arrived at its destination. The crew are awaiting their illegal cargo.

Jenny phones Agnes - news has come through of the identification of the body found at sea.

The Mary Rose is about to set sail back to Wales.

Geirfa

Tir mawr	mainland
Heblaw am	apart from
Penrhyn	headland
Rhwyfo	to row
Dadwisgo	to undress
Twyllo	to cheat
Ffeithiau	facts
Perffaith siwr	perfectly sure
Trueniaid	poor things
Wedi sythu (SW)	frozen
Beth sy o'i le ar?	What's the matter with?
Beichiog	pregnant

Golygfa 1

Arwyn - Dw i'n gweld dim...

Brian - Na finna.

Jac - Maen nhw'n siwr o ddod.

Arwyn - Ydyn nhw'n gwybod ble rydyn ni?

Jac - Maen nhw'n gwybod yn iawn...

Arwyn - Ond mae hi mor dywyll draw ar y tir mawr 'na...

Brian - Ydy, mae hi. Heblaw am y goleuadau bach yna draw yn fan acw ar y penrhyn...

Arwyn - Ydych chi'ch dau yn oer?

Brian - Ychydig bach.

Jac - It's all that whisky you keep knocking back: it thins the blood...

Arwyn - Lwc bod ychydig bach 'da fi yn y fflasg 'ma.

Brian - Sssst!

Arwyn - Beth?

Jac - Sssst!

Arwyn - Dw i'n clywed dim...

Brian - Na fi.

Jac - Dyma nhw'n dod.

Arwyn - Ble?

Jac - Draw fan'cw.

Brian - O, ia. Wela i nhw. Maen nhw'n rhwyfo tuag yma..

Golygfa 2

Agnes - Wyt ti'n iawn? Jenny... beth sy'n bod?

Jenny - Fo ydy o...

Agnes - Beth?

Jenny - Y corff...Y sgrebwd ddaeth y pysgotwyr 'na o hyd iddo fo...

Agnes - Richard Allen?

Jenny - Ie!

Agnes - Wyt ti'n siwr?

Jenny - Ydw! Maen nhw wedi dweud! Richard ydy o!

Agnes - Ond dwedodd Jac..

Jenny - Mae o wedi nhwyllo fi on'd ydy? Mae o wedi nhwyllo fi! A'r holl bres yna!

Agnes - Wyt ti'n siwr o dy ffeithiau nawr? Wyt ti'n berffaith siwr?

Jenny - Ydw! Maen nhw wedi dod o hyd i Richard! Ac mae Jac Whelan wedi fy nhwyllo i'n racs!

Golygfa 3

Arwyn - Jac...Jac...

Jac - Beth?

Arwyn - Does dim lle i ragor...

Jac - Fydd rhaid inni wneud lle, mêt...

Brian - Beth mae Arwyn yn trio'i ddweud ydy fod gormod o bobol ar y cwch 'ma...

Jac - Brian, mae rhain wedi talu. Full paid up illegal immigrants. All the way from Eastern Europe

Arwyn - Dim ond dweud ydw i -

Jac - Shut up! Dwi ddim eisiau gwybod.

Brian - Dwi wedi cyfri pedwar o blant...

Arwyn - Wy'n oer. Ac os ydw i'n oer, fydd y trueniaid yma sy mas ar y dec wedi sythu cyn cyrraedd yn ôl i Gymru...

Jac - Fydd Duncan yn ein disgwyl ni...

Brian - Hefo lori?

Jac - Ia.

Arwyn - Lori?

Jac - Beth sydd o'i le ar lori?

Arwyn - Ydyn ni'n barod?

Jac - Ydyn...

Brian - Jac...Edrycha...

Jac - Beth?

Brian - Y ddynes yna...Mae hi'n feichiog...

Jac - Yeah? What?

Brian - Dim ond deud ydw i.

Ysbyty Brynaber: Episode 192

One of the passengers aboard the Mary Rose is dangerously close to giving birth - Arwyn insists that the boat must return to Ireland.

Jac Whelan brandishes a gun - there is a scuffle...

Geirfa

Cyflwr	condition
Gwirion (NW)	foolish
Poen	pain
Perygl	danger
Meddwyn	drunkard
Gwn	gun
Saethu	to shoot
Gollwng	let go
Cnoi	to bite

Golygfa 1

Jac - Rwyf ti'n yfed?

Arwyn - Mae hi mor oer...

Jac - You're in charge of getting us back safe remember...

Brian - Jac?

Jac - Beth?

Brian - Y ferch 'na...Hefo'r headscarf...Mae hi'n cael contractions...

Jac - Ie? What do you expect me to do?

Brian - Dydy hi ddim yn well i Arwyn fynd ati? Mae o'n ddoctor.

Jac - Na. Job Arwyn ydy cael y cwch yma yn ôl adra yn saff.

Arwyn - Gad i fi fynd i gweld hi, Jac..

Jac - Quick then. I want to reach dry land and I want these illegal immigrants off my hands as quickly as possible.

Brian - Dw i erioed wedi dy weld ti mor tense â hyn o'r blaen, Jac...Glywaist ti fi?

Jac - Jabber, jabber! Shut up! Be sy'n bod arni...? Can't she just keep quiet?

Brian - Mae hi mewn poen...

Arwyn - Mae hi mewn cyflwr lot gwaeth na hynny...

Jac - Pam? Beth sy'n bod arni?

Arwyn - Ddylai hi fod mewn ysbyty - nawr!

Golygfa 2

Jenny - Dwi'n methu coelio mod i wedi bod mor wirion...

Agnes - Doedd det ti ddim i wybod oedd det ti?

Jenny - Ond mae o wedi fy nhwylo i! Yr unig beth wnaeth Jac Whelan oedd cashio pob cheque a dweud llwyth o gelwydd wrtha i. Ddim Richard oedd y con-man - ond fo!

Jenny - Dw i wedi bod yn ffwl.

Agnes - Paid â dweud hynny

Jenny - Ond dydy o ddim wedi dy dwyllo di! Ddim fel mae o wedi nhwylo i!

Agnes - Sa i'n gwybod. Dw i wir ddim yn gwybod beth yw ei gêm e...

Jenny - Wel, dw i eisiau mhres yn ôl! Bob un ceiniog hefyd!

Agnes - Ac fe gei di hefyd. Fe wna i'n siwr o hynny. Fydd e nôl o Birmingham prynhawn 'ma...

Golygfa 3

Brian - Jac, mae'n rhaid inni wrando ar Arwyn!

Jac - Na!

Arwyn - Onest nawr...Os na gawn ni'r fenyw 'ma i ysbyty o fewn awr, mae perygl cryf iawn y bydd hi'n colli'r babi ac efallai y bydd ei bywyd hi ei hun mewn peryg...

Jac - Tough. We are going back as planned...

Brian - Ond mae Arwyn newydd ddweud -

Jac - I don't care what he said!

Arwyn - Fydd rhaid inni gael help...

Jac - Na! Os wnawn ni alw am help, wel, that's it: we're done for. A ddim jest fines. But prison. Ti'n deall. Brian, mate? You and me. We go down for a long stretch.

Arwyn - Efallai fy mod i'n feddwyn. Efallai fy mod i'n 'wreck'. Ond dw i'n dal yn ddoctor a dw i'n gorfod gwneud popeth i helpu'r fenyw 'ma a dw i'n mynd i anfon radio message mas yn -

Brian - Be wyt ti wedi wneud?

Jac - I can't stand his yapping!

Brian - Wel, dw i'n cytuno hefo Arwyn...

Jac - Beth?

Brian - Dw i'n cytuno hefo Arwyn.

Jac - Brian, do you know what this is?...

Brian - ...Gwn.

Jac - Gwn. Nice pun. A gun. A loaded gun.

Brian - Beth wyt ti'n ddeud, Jac? Baset ti'n fy saethu i?

Jac - Just behave.

Brian - Ac os ydy'r ddynes yma'n marw? Beth wedyn? Beth wedyn, Jac?

Jac - Shut up!

Brian - Mae Arwyn yn iawn. Mae'n rhaid inni gael rhyw help iddi...

Arwyn - Brian! Helpa fi...!

Jac - Get off!

Arwyn - Dal ei law e, Brian!

Jac - This gun is loaded!

Brian - Gollwng y gwn! Gollwng y gwn! Gollwng y gwn, Jac!

Jac - Get off me! Get off...!

Brian - Gollwng o!

Arwyn - Dw i'n mynd i'w frathu fe!

Brian - Gwaed...

Arwyn - Ble?

Jac - I've shot myself in the foot!

Arwyn - Rho'r gwn i fi...

Jac - Stand back you! Stand back!

Brian - Jac - dw i ddim yn gofyn eto -

Jac - If you don't step back now - you're both dead!

Synopsis

Jac Whelan's operation out on the Irish sea has run into trouble - one of the women on the boat is in dire need of hospitalisation. Arwyn wants to turn back. Jac Whelan brandishes a gun. High drama on the high seas!

Test yourself

1. What is the Welsh word for Welsh people?
 - a) Cymraeg
 - b) **Cymry**
 - c) Cymru
2. What is the Welsh for 'Welsh Books'?
 - a) **Ilyfrau Cymraeg**
 - b) Ilyfrau Cymru
 - c) Ilyfrau Cymreig
3. What is the Welsh for 'the Irish language'?
 - a) **Gwyddeleg**
 - b) Gwyddelig
 - c) Gwyddelod
4. How would you say 'How high is the building?' in Welsh?
 - a) **Pa mor uchel ydy'r adeilad?**
 - b) Sut mor uchel ydy'r adeilad?
 - c) Pa mor uchel mae'r adeilad?
5. What is the Welsh for 'to visit the castle'?
 - a) gweld y castell
 - b) **ymweld â'r castell**
 - c) ymweld y castell
6. How would you ask 'What's wrong with the car?' in Welsh?
 - a) Beth sy'n bod yn y car?
 - b) **Beth sy o'i le ar y car?**
 - c) Beth sy yn le'r car?